**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

23 Medi 2016

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

**Sesiwn Graffu: Blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Medi ac am ateb cwestiynau'r Aelodau. Yn gyntaf oll, a gaf i eich llongyfarch ar eich penodiad a dymuno'r gorau i chi ar ran y Pwyllgor wrth ichi ymgymryd â'ch cyfrifoldebau newydd.

Fel y byddwch yn ei werthfawrogi, roedd y sesiwn yn gyfle cychwynnol i'r Pwyllgor ymgyfarwyddo â'ch cyfrifoldebau a'ch holi chi am eich blaenoriaethau cyfredol. Mae'r Pwyllgor yn dal i ffurfio ei flaenoriaethau ei hun ar gyfer craffu ac adolygu polisi. Gwn fod y Pwyllgor yn edrych ymlaen at y cyfle i'ch holi'n fanylach ynghylch agweddau penodol ar eich cyfrifoldebau unwaith y bydd ein rhaglen waith yn gliriach.

Mae swyddogion y Pwyllgor eisoes wedi cysylltu â'ch swyddogion chi ynghylch rhai o'r ymrwymiadau a wnaethoch yn y cyfarfod. Yn benodol, fe wnaethoch gytuno i roi rhagor o wybodaeth ynghylch:

- Cymru Hanesyddol – sut y bydd yn gweithio a beth fydd ei gylch gorchwyl;
- y cynllun newydd ar gyfer amgueddfeydd yng Cymru;
- y rhaglenni 'Cyfuno' a 'celfyddydau a dysgu creadigol';
- y 'Fforwm Cyfryngau', gan gynnwys ei flaenraglen waith.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565

O ran y pwynt olaf hwnnw a'r mân ddryswch sydd wedi codi ynglŷn â chyfrifoldeb Gweinidogol ar gyfer y Fforwm, rwyf wedi ysgrifennu ar wahân at Alun Davies, a roddodd dystiolaeth inni'n ddiweddarach yn y cyfarfod. Rwyf wedi gofyn i Alun a fyddai'n bosibl iddo egluro'r sefyllfa, ac rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwnnw atoch chithau.

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar ichi am gynnig sesiynau briffio cefndirol ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a'r broses o'i weithredu. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi pwy y dylai'r Aelodau gysylltu â hwy os ydynt yn dymuno manteisio ar y cynnig hwn yn y tymor byr. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol cynnal sesiwn friffio i'r Pwyllgor cyfan rhywbryd pan fydd ein rhaglen waith yn gliriach. Os felly, byddaf yn ysgrifennu atoch eto.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Alun Davies er gwybodaeth iddo o ran y Fforwm Cyfryngau.

Yn gywir

Bethan Jenkins

**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**